# Taflen Ffeithiau 6: Cyflogi Cynorthwywyr Personol

Os ydych yn dymuno cyflogi eich cynorthwyydd personol eich hun a ddim gyda rhywun mewn golwg eto, byddwch angen penodi rhywun i'w gyflogi. Cyn i chi wneud hyn dylech feddwl yn ofalus am yr hyn yr ydych yn chwilio amdano a pha dasgau yr hoffech i rywun ei wneud. Efallai y bydd yn ddefnyddiol i wneud rhestr o'r holl bethau y byddai angen i'ch cynorthwyydd personol ei wneud. Byddwch hefyd angen meddwl am beth arall y byddwch yn ei ddisgwyl gan eich cynorthwyydd personol, ydych chi'n chwilio am rywun gyda char ei hun all eich cludo chi i lefydd? Pan fyddwch yn penodi'r person cywir, gallwch ddefnyddio'r pethau hyn i greu swydd ddisgrifiad.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn argymell yn fawr eich bod yn defnyddio'r cymorth ar gael pan fyddwch yn cyflogi eich cynorthwyydd personol eich hun.

Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol ar gael i'ch cefnogi chi gyda'r holl agweddau o gyflogi eich Cynorthwyydd Personol eich hun.

Pan fyddwch yn dewis cyflogi pobl rydych yn cymryd cyfrifoldebau penodol. Mae'n rhaid i chi feddwl am yr holl feysydd o gyflogi staff eich hun i sicrhau eich bod yn gyflogwr da.

**Cynorthwywyr Personol Cyflogedig**

Os ydych yn cyflogi staff mae hyn yn golygu eich bod yn dod yn gyflogwr. Mae yna nifer o bethau sy'n rhaid i chi sicrhau eu bod yn eu lle wrth gyflogi staff.

Cyflogau

Cyfraddau teg o dâl - Mae'n rhaid i chi gadw at yr isafswm cyflog

Disgrifiadau swydd ysgrifenedig

Contractau Gwaith

Rhaid cadw at hawliau a chyfrifoldebau gweithwyr cyflogedig h.y. sicrhau treth incwm cywir, cyfraniadau yswiriant cenedlaethol, tâl gwyliau, tâl mamolaeth a thâl tadolaeth.

Rheoli risg

**Bydd y Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol yn trefnu i’ch cefnogi chi gyda hyn felly peidiwch â phoeni!**

Pan fyddwch yn recriwtio staff eich hun efallai y bydd yn rhaid i chi weithredu proses dethol sydd yn cynnwys hysbysebu, cyfweld a staff fetio. Mae’r cyngor yn argymell yn gryf eich bod yn derbyn y cymorth i’ch helpu i recriwtio staff yn ddiogel.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn mynnu os ydych yn bwriadu cyflogi eich Cynorthwywyr Personol eich hun eich bod yn cael o leiaf un cyfarfod gyda’r Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol.

Bydd y tîm yn eich darparu gyda gwybodaeth a phan yn briodol cymorth i’ch helpu i benodi a rheoli diogelwch eich cynorthwyydd personol.

**Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol**

**Rhif ffôn:** 01352 701100

**E-bost:** dp.support@flintshire.gov.uk